

BLOOM, MILBOURN (bu farw 1766), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Milbourn Bloom
Dyddiad marw: 1766
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Nawr wyddys pa bryd y ganwyd ef; honna traddodiad ei fod yn un o deulu Castell Pigyn (Abergwili); yn ôl **NLW MS 5456A** gellid cerdded o'i gartref i Gaerfyrddin o fewn yr awr. Daw'r golwg ym Mawrth 1743 (Recordiau Cymdeithasfa'r M.C. yn L.L.C.) fel 'cynghorwr cyhoeddus' (h.y. teithiol), ac yr oedd yn arolygrw seiaud y tu isaf i Dywi. Ond ym Medi yn yr un flwyddyn cefnodd ar y Methodistiaid (llythyr 973 yn nghasgliad Treeca, a lythyr arall a argraffwyd ar t. 270 o *Life of Howell Harris*, H. J. Hughes), a throses ei wyneb at y weinidogaeth Annibynnol; derbyniwyd ef yn aelod o eglwys **Christmas Samuel** yn y Pant Teg ar 13 Medi 1743 (*Cofiadur* 1953, 54), y mae cyfeiriadau ato yn nyddiadur **Thomas Morgan** (NLW MS 5456A yn L.L.C.) ar hyd 1744. Ar 26 Medi 1745 (Llyfr eglwys y Cilgwyn, yn *Y Cofiadur*, 1923), urddwyd ef i gynorthwyo **Samuel**. Yr oedd yn fugal ar Ben-y-graig o 1748 hyd 1757, ac yn 1757 dengys recordiau'r Bwrdd Presbyteriaid ei fod yn y Gwernogle; symudodd oddi yno i Bentre-ty-gwyn yn yr un flwyddyn. Bu farw, meddai ei gyfaill **Thomas Morgan**, yn 1766.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Archifau LIGC: NLW MS 5455A: Notebook (papurau Thomas Morgan)

Archifau LIGC: **NLW MS 5456A: Diary** (papurau Thomas Morgan)

A History of Carmarthenshire, ii. 197 n., 200-1

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, dan enwau'r eglwysi a nodwyd uchod

Y Cofiadur, 1953, 54

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733925

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). BLOOM, MILBOURN (bu farw 1766), gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BLOO-MIL-1766>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government